Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Dechrau Disglair**

**Dechrau Disglair Ltd**
**Heol yr Orsaf, Sanclêr**
**Caerfyrddin**
**SA33 4DF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

22/6/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Dechrau Disglair

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Dechrau Disglair Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 35 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Tachwedd 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae’r plant yn teimlo’n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus yn y feithrinfa hon. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae yn fawr iawn, ac yn cael buddiant o'r ystod dda o weithgareddau chwarae a dysgu sy’n briodol i’w hoedran i hybu eu datblygiad. Maent yn datblygu cydberthnasau â'u cyfoedion ac yn datblygu ymlyniadau cadarnhaol gyda'r staff.

Mae'r staff yn garedig ac yn ofalgar ac yn ymateb i anghenion y plant. Maent yn rhoi cymorth a chefnogaeth i'r plant yn ôl yr angen. Maent yn cynllunio gweithgareddau ac yn ymgysylltu â'r plant yn eu gweithgareddau dewisol. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â llesiant a diogelwch y plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth a gwybodaeth dda yn gyffredinol ynghylch polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn cefnogi chwarae a dysgu'r plant yn dda.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn daclus, ac wedi’i gynnal a'i gadw'n dda. Mae pob ardal yn addas ar gyfer anghenion y plant sy'n mynychu'r feithrinfa. Mae digon o le i'r plant archwilio ac mae'r plant yn elwa o ardal dan do ddiogel, yn ogystal ag ardal awyr agored. Mae'r adnoddau a ddarperir yn briodol i oedran y plant ac o ansawdd da. Mae gweithdrefnau diogelwch priodol ar waith, gan fod y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn deall eu cyfrifoldeb i sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau a'u hadolygu.

Caiff y feithrinfa hon ei harwain a'i rheoli’n effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cydymffurfio'n llwyr â'r rheoliadau ac yn deall pwysigrwydd adolygu a monitro'r gwasanaeth yn gyson er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliannau. Maent yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r rhieni a'r plant sy'n mynychu'r feithrinfa. Mae yna systemau cadw cofnodion priodol ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn llyfn a cheir cysylltiadau da iawn â rhieni.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf a gwnânt ddewisiadau pwrpasol mewn perthynas â'u chwarae. Mae'r plant yn ystafell y babanod yn archwilio eu hamgylchedd yn rhydd. Mae'r plant hŷn yn dewis yr hyn yr hoffent ei wneud neu'n ymuno â gweithgareddau a arweinir gan oedolion – er enghraifft, yn edrych ar lyfr. Gwelsom y plant yn arwain eu chwarae yn yr ystafell synhwyraidd trwy ddewis gwahanol fodelau o greaduriaid y môr a'u henwi gyda chymorth y staff. Dewisodd plant eraill neidio oddi ar giwbiau a glanio ar fatiau sbwng diogelwch wrth chwerthin a gwenu ar ei gilydd. Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus; maent yn gwybod y bydd staff yn ymateb iddynt. Yn ystod amser byrbryd, caiff eu ceisiadau am fwy o fwyd eu bodloni ac, wrth chwarae, mae’r plant yn cael yr opsiwn i ymuno mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolion neu i barhau â'r hyn y maent yn ei wneud.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu'n dda iawn. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn gyfarwydd ag arferion y feithrinfa. Maent yn chwarae ac yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hoedran a'u camau datblygu. Mae'r plant iau yn chwarae'n fodlon ochr yn ochr â'i gilydd. Mae pob plentyn yn gwneud ymlyniad cryf wrth yr staff sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant iau yn mwynhau chwarae ar yr offer chwarae meddal gyda'i gilydd. Mae’r plant yn mynd at y staff am gysur a chymorth. Gwelsom hyn yn digwydd ar sawl achlysur – er enghraifft, yn ystod sesiwn yn yr ystafell synhwyraidd, roedd plentyn yn eistedd wrth ymyl aelod o staff.

Mae'r plant yn dysgu sut i ystyried anghenion eraill ac i rannu a chymryd eu tro. Maent yn dechrau chwarae gyda phlant eraill mewn ffordd gydweithredol, a pharchu eu hamgylchedd a'u teganau. Amser cinio, maent yn eistedd yn braf gyda'i gilydd wrth y bwrdd ac yn disgwyl eu tro. Maent yn rhannu adnoddau gyda'i gilydd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau – er enghraifft, wrth adeiladu trac trên.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd a gwneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn cael eu hannog i ddilyn eu diddordebau ac i ddewis teganau a gweithgareddau yn annibynnol. Amser cinio ac amser byrbryd, mae'r plant yn cael cyfleoedd i fwydo eu hunain ac yn cael eu hannog i ddatblygu rhai sgiliau annibyniaeth pan fyddant yn mynd at y sinc i olchi eu dwylo a gosod y lliain papur yn y bin.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r arweinydd a'r person â chyfrifoldeb yn gweithio'n dda gyda'r staff i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu da ar waith. Mae'r holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon am blant neu oedolion yn y feithrinfa. Mae systemau ar waith ar gyfer rheoli a chofnodi damweiniau a digwyddiadau yn ogystal ag unrhyw feddyginiaeth a roddir. Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o fewn y lleoliad. Mae ganddynt wybodaeth foddhaol am bolisïau a gweithdrefnau ac yn cadw cofnodion priodol yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, nid ydynt yn dilyn pob polisi a gweithdrefn yn llym bob amser – er enghraifft, mae'r polisi ar newid cewynnau yn nodi bod staff yn golchi eu dwylo ar ôl newid cewyn; ni welsom hyn ar ôl i bob cewyn gael ei newid.

Mae bron pob un o'r aelodau staff yn dangos dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli heintiau, yn enwedig yn sgil y pandemig presennol. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol mewn perthynas â pharatoi a gweini bwyd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod y bwyd yn iach, gyda phrydau a byrbrydau yn cael eu paratoi'n ffres yng nghegin y feithrinfa. Mae system effeithiol ar waith i reoli alergeddau a dewisiadau deietegol. Mae'r staff yn cydweithio i sicrhau bod dull cyson mewn perthynas ag arferion hylendid yn y lleoliad, a gwelsom achosion aml o ddiheintio dwylo gan ddefnyddio hylif gwrthfacterol.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda i gynorthwyo a hyrwyddo ymddygiad y plant yn effeithiol. Maent yn dangos esiampl gadarnhaol i'r plant drwy drin eu cydweithwyr a'r plant gyda pharch a charedigrwydd. Maent yn rhoi canmoliaeth ac anogaeth gyson i'r plant ac mae hyn yn meithrin amgylchedd tawel yn y lleoliad. Mae'r staff yn chwarae gyda'r plant i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Mae yna bolisi rheoli ymddygiad priodol ac mae'r staff yn dilyn y strategaethau sydd wedi'u hamlinellu ynddo fel bod ymarfer yn gyson a'r plant yn deall yr hyn sydd yn ddisgwyliedig.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gynnes â'r plant ac yn ymgysylltu â nhw yn eu gweithgareddau dewisol. Mae system ar-lein yn cofnodi ac yn nodi cynnydd y plant a'r camau nesaf. Mae'r plant yn cael gofal cyson oddi wrth oedolyn sydd yn eu hadnabod yn dda. Yn ystod gweithgareddau, mae'r staff yn ddeallgar o anghenion unigol y plant ac yn gadael digon o ofod i'r plant ddilyn eu diddordebau a dewis yr hyn y maent am ei wneud. Gwelsom arferion da ym mhob ystafell, gyda'r staff yn rhoi sylw i anghenion y plant ac yn cefnogi eu chwarae.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r amgylchedd yn lân, wedi ei gynllunio'n bwrpasol ac yn groesawgar. Mae yna ystafelloedd ar gyfer grwpiau oedran penodol, sy'n caniatáu i'r plant ymlacio a chwarae'n ddiogel. Mae'r feithrinfa yn ddiogel ac o dan glo ac yn darparu lefel dda iawn o ddiogelwch. Mae gan y plant y rhyddid i symud o gwmpas yn annibynnol i archwilio'r ardaloedd y tu mewn a'r allan.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod ymarferion tân, gweithdrefnau brys ac asesiadau risg manwl ar waith a'u bod yn cael eu hymarfer a'u hadolygu'n rheolaidd, ac yn sicrhau bod yr offer a'r adnoddau i gyd yn gweithio'n iawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa a'r staff i gyd yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant ac yn sicrhau bod systemau gwresogi ac awyru yn gywir, yn dibynnu ar y tymheredd. Yn ystod ein hymweliad, roeddent wedi gosod unedau aerdymheru mawr mewn ystafelloedd chwarae er mwyn cadw'r plant yn gyfforddus ac yn ddiogel yn y tywydd poeth. Trafodwyd lleoliadau'r rhain yn ystod yr ymweliad. Gweithredodd yr arweinydd a'r person â gofal ar unwaith a symudwyd y rhain i leoliadau mwy diogel. Caiff hysbysiadau eu harddangos yn ardal y gegin, sydd ond yn hygyrch i staff, er mwyn diogelu plant sydd ag alergeddau neu anoddefiadau; mae'r canllawiau a hysbysiadau clir yn sicrhau diogelwch a llesiant y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa a'r staff yn sicrhau bod y safle'n cael ei gynnal a'i gadw a'i drefnu'n dda. Mae ystod o ystafelloedd chwarae yn yr adeilad ac ardaloedd ar gyfer oedrannau a chyfnodau datblygu'r plant. Mae yna ystafell synhwyraidd dawel hefyd sy'n hygyrch i bob grŵp oedran ac sy'n cynnwys adnoddau a ddewiswyd yn arbennig ar gyfer gweithgareddau a phrofiadau unigol neu ar gyfer grwpiau bach.

Mae'r adnoddau yn yr ystafelloedd chwarae yn cynnig ystod o gyfleoedd i ysgogi chwilfrydedd a diddordeb y plant. Er enghraifft, dan do, gwelsom ddrychau isel a llawer o adnoddau chwarae naturiol a phren, ac yn yr ardal allanol roedd cegin fwd, gardd berlysiau a gwesty i drychfilod. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac o fewn cyrraedd y plant, sy'n eu gwneud yn hygyrch i blant yn ôl eu hoed a'u cyfnod datblygu, gan hyrwyddo annibyniaeth a chreu cyfleoedd ar gyfer chwarae a arweinir gan blant. Ymysg yr adnoddau eraill yn y feithrinfa, mae deunyddiau chwarae naturiol yn ogystal ag eitemau sydd wedi cael eu hailgylchu. Yn yr awyr agored, mae ardaloedd sy'n darparu cysgod, y cyfle ar gyfer chwarae corfforol, a chyfleoedd i blannu a thyfu. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa fod ganddynt gynlluniau i ddatblygu'r man awyr agored i gynnwys rhagor o ardaloedd chwarae cysgodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Rhagorol**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weledigaeth gref ac maent yn rhannu hon yn effeithiol gyda'r staff a'r rhieni. Maent yn darparu polisïau a gweithdrefnau clir a datganiad o ddiben lliwgar, llawn gwybodaeth sy'n adlewyrchu safonau uchel y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn wybodus ac yn gymwys yn eu cyfrifoldebau rheoleiddio ac yn sicrhau eu bod yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent hefyd yn sicrhau bod yr holl ddogfennaeth yn cael ei threfnu a'i rheoli mewn modd eithriadol, gyda'r holl ddogfennau rheoleiddio yn eu lle ac yn gywir ac yn gyfredol. Er enghraifft, gwelsom eu bod yn adolygu ac yn diweddaru eu polisïau unigol a'u cyfrifoldebau rheoleiddio yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n llawn yn ymarferol. Cedwir pob dogfen o'r fath yn gyfrinachol mewn swyddfa ar lawr cyntaf y feithrinfa, sydd hefyd yn darparu lle i staff a rhieni gyfarfod ag arweinwyr a staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hefyd yn sicrhau bod y cydbwysedd rhwng niferoedd y staff a'r plant yn gywir ac y caiff y plant eu goruchwylio'n dda iawn.

Mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu a hunanwerthuso'r gwasanaeth yn barhaus ac yn bwrpasol ac mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymgysylltu â rhieni'n llwyddiannus, gan gasglu eu barn a gwneud gwelliannau pan nodir meysydd i'w datblygu ymhellach neu os nodir y rhain. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi ym mhob agwedd ar eu gwaith. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol rheolaidd ac ystyrlon, gan roi cyfle i staff fyfyrio a gwella eu harferion. Mae yna ymdeimlad cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus yma, gyda'r holl staff yn mynychu hyfforddiant gorfodol ac yn cwblhau nifer o gyrsiau ychwanegol sydd o fudd iddynt yn broffesiynol ac o fudd i ddatblygiad y plant yn eu gofal. Ymysg y cyrsiau hyn, mae ymwybyddiaeth o iaith arwyddion, iechyd meddwl plant a chynllunio ar y pryd. Mae'r tîm o staff yn gymwys ac yn brofiadol iawn. Gwelsom dystiolaeth o waith tîm effeithiol rhwng y staff a'r bobl sy'n gyfrifol am y feithrinfa. Roedd hyn yn amlwg wrth iddynt drafod ac egluro'r broses gynllunio ym mhob un o'r ystafelloedd chwarae.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn hyrwyddo'r arferion gorau sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal yn effeithiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth eithriadol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Gwelsom enghreifftiau o gynllunio tîm dwyieithog a hysbysiadau ar fyrddau arddangos fel y gall pob rhiant eu darllen. Gwelsom staff yn sgwrsio'n effeithiol yn Gymraeg â phlant o gartrefi di-Gymraeg hefyd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn arloesol ac yn hollol gynhwysol. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a rennir ar yr ap a'u bod yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf. Roeddent yn canmol y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff gofal, gan ddweud bod eu plant yn hapus iawn yn y lleoliad.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Sicrhau bod pob aelod o staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei gyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |
| 15 (1) (c) | Nid yw'r datganiad o ddiben yn cydymffurfio â’r rheoliadau | Cyflawnwyd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 17/08/2022